**BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**

**ADRODDIAD I:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR CRAFFU POBL**

**PWNC:** **PWYLLGOR CRAFFU POBL - DYDD MAWRTH, 28 CHWEFROR 2023 DYDD MAWRTH, 28 CHWEFROR 2023**

**ADRODDIAD GAN:**

---

PRESENNOL: T. SMITH (CADEIRYDD)

Cynghorwyr: J. Morgan, J.P. (Is-gadeirydd)
C. Bainton
D. Bevan
G. A. Davies
J. Holt
G. Thomas
D. Wilkshire

A:

| EITEM | PWNC | GWAITH |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na chafwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar gyfer y Cynghorydd K. Chaplin a Mr. Tim Baxter. | |
| No. 3 | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Datganodd y Cynghorydd D. Wilkshire fuddiant yn eitem rhif 9 - Achos Busnes i brynu 2 adeilad i'w defnyddio fel cartrefi preswyl i | |

| | | |
|---|---|---|
| | blant. | |
| **No. 4** | **PWYLLGOR CRAFFU POBL**<br><br>Cyflwynwyd penderfyniadau'r Pwyllgor Craffu Pobl a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2023.<br><br>Dywedwyd na chafodd ymddiheuriadau'r Cynghorydd J. Holt eu cynnwys.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 5** | **DALEN WEITHREDU**<br><br>Cyflwynwyd y Ddalen Weithredu yn deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2023.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i nodi'r ddalen weithredu. | |
| **No. 6** | **CANLYNIAD AROLWG ESTYN AR WASANAETHAU ADDYSG LLYWODRAETH LEOL BLAENAU GWENT**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad fel y'i cyflwynwyd (Opsiwn 2). | |
| **No. 7** | **POLISI DERBYN BLAENAU GWENT AR GYFER ADDYSG FEITHRIN A STATUDOL 2024/25**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg / Rheolwr Gwasanaeth Trawsnewid Addysg a Newid Busnes.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn y ddogfen polisi (Opsiwn 1). | |
| **No. 8** | **BLAENRAGLEN GWAITH: 18 EBRILL 2023**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Swyddog Craffu a Democrataidd.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i nodi'r Flaenraglen ar gyfer cyfarfod 18 | |

| | | |
|---|---|---|
| | Ebrill 2023. | |
| **No. 9** | **<u>ACHOS BUSNES DROS BRYNU 2 ADEILAD I'W DEFNYDDIO FEL CARTREFI PRESWYL PLANT</u>**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol yng nghyswllt y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra cynhelid yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Rhan 1, Atodlen 12 A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Pennaeth Interim Gwasanaethau Plant.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad sy'n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol/busnes personau heblaw'r Awdurdod, a bod y Pwyllgor yn:<br><br>• Cefnogi'r achos busnes dros brynu 2 adeilad i gael eu datblygu yn gartref preswyl i blant. Caiff yr arbedion refeniw a ddynodir eu gosod yn Pontio'r Bwlch i gefnogi pwysau cyllideb y Cyngor yn 2024/25 a blynyddoedd y dyfodol (Rhan 1 Opsiwn 1); a<br>• Chefnogi prynu y 2 adeilad uwchben gwerth y farchnad a defnyddio'r gronfa cyfalaf wrth gefn i gyllido'r diffyg o £65,000 mewn costau cyfalaf ar gyfer prynu (Rhan 2 Opsiwn 1). | |